Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Wasanaeth Glasoed Gogledd Cymru (GGGC)
# Ffordd Llanfair
# Abergele
# Conwy
# LL22 8DP

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2013**

## Cyd-destun

Mae Uned Glasoed Gogledd Cymru yn cael ei rheoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n gyfleuster sy'n gwasanaethu anghenion iechyd meddwl pobl ifanc ar draws Gogledd Cymru gyfan. Bod blwyddyn bydd pobl ifanc sydd â materion iechyd meddwl difrifol a chymhleth yn cael eu derbyn i Uned Glasoed Gogledd Cymru am gyfnod preswyl o driniaeth therapiwtig ddwys.

Yn ystod arhosiad y disgyblion yn yr uned, maent yn mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Gwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru. Cyfleuster addysgol yw hwn yn cael ei ddarparu gan Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Awdurdod Lleol Conwy ar ran pob un o chwe adran addysg yr awdurdod unedol ar draws Gogledd Cymru. Cynhwysir Gogledd Powys yn y cytundeb lefel gwasanaeth hefyd. Lleolir yr UCD mewn adeilad wedi'i adeiladu'n bwrpasol sy'n gysylltiedig â'r uned breswyl.

Mae'r staff yn UCD Gwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru yn gweithio dan arweiniad Adran ADY Addysg Conwy ac mewn partneriaeth â thîm staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng Ngwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru. Eu nod yw galluogi pob claf yn yr ysbyty iechyd meddwl i gael eu hawl i addysg ar lefel briodol ac effeithiol.

Ar gyfartaledd, mae 20-30 yn cael eu derbyn bob blwyddyn. Yn aml, mae'r disgyblion yn gweithredu ar lefelau sydd gryn dipyn islaw eu potensial pan fyddant yn dod i mewn i'r ysbyty oherwydd difrifoldeb a chymhlethdod eu problemau iechyd meddwl a/neu brofiadau bywyd.

Mae'r UCD yn gweithio mewn partneriaeth â'r ysbyty gan ystyried y nodau therapiwtig a osodwyd ar gyfer y myfyrwyr wrth gynllunio targedau addysgol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr UCD** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r UCD** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae Gwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru yn UCD ragorol oherwydd:

- mae'r disgyblion yn cyflawni safonau rhagorol ar draws yr UCD;
- mae bron pob un o'r disgyblion yn symud yn ôl i'w hysgolion neu ymlaen at ddysgu pellach, ac yn cynnal y lleoedd hyn dros amser;
- mae'r staff yn diwallu anghenion disgyblion yn dda;
- mae'r cymorth ac arweiniad yn effeithiol iawn; ac
- mae partneriaethau rhagorol rhwng ysgolion a gweithwyr iechyd proffesiynol.

### Rhagolygon gwella

Er gwaetha'r ddarpariaeth ragorol, rhagolygon gwella da sydd gan yr UCD. Mae hyn oherwydd:

- bod gweledigaeth glir gan y rheolwyr ar gyfer gwaith yr UCD;
- mae diwylliant o hunanarfarnu gyda defnydd da o ddata priodol; ac
- mae'r UCD yn rheoli ei hadnoddau yn dda ac yn cynnig gwerth am arian.

Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor rheoli, er ei fod yn gefnogol iawn, yn cynnig digon o her eto mewn perthynas â gwella'r ysgol. Ni wnaeth yr UCD ymgynghori â chymaint o randdeiliaid ag y gallai fod wedi gwneud wrth ddatblygu'r adroddiad hunanarfarnu (AHA). Wrth gynllunio, nid oes costau ynghlwm wrth flaenoriaethau bob tro, ac nid yw bob amser yn glir beth yw'r cysylltiad rhyngddynt â safonau.

## Argymhellion

A1 Cynnig mwy o her gan y pwyllgor rheoli er mwyn cefnogi gwell'r ysgol

A2 Gwneud yn siŵr bod cynllunio strategol ar gyfer medrau ar draws y cwricwlwm

A3 Gweithio gyda staff iechyd, staff addysg a disgyblion i wella prydlondeb i wersi

A4 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu annibyniaeth ar draws y cwricwlwm, ac mewn cyfarfodydd o gyngor yr ysgol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr UCD i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae disgyblion sy'n ymuno â'r UCD ar bwynt isel iawn yn eu bywydau. Mae ganddynt faterion iechyd meddwl acíwt, maent mewn lleoliad diogel, ac mae barn isel iawn ohonynt eu hunain a'u galluoedd gan lawer o'r disgyblion. Mae llawer yn ei chael hi'n anodd iawn ymddiried mewn oedolion ac uniaethu â phobl eraill. Oherwydd y lefel uchel iawn o gymorth ac anogaeth a gânt gan bob aelod o staff yn yr uned, gan gynnwys y staff addysg a'r staff iechyd, mae'r disgyblion yn dechrau gwella, yn dysgu i ymddiried mewn pobl eraill ac yn magu diddordeb mewn dysgu eto. Maent yn gwneud cynnydd rhagorol dros gyfnod. Mae eu presenoldeb yn gwella ac maent yn dod yn fwy parod i fynd i'r afael â thasgau newydd. Cred rhieni a gofalwyr fod ymagwedd anogol yr UCD at addysg eu plant yn eu galluogi i ailddechrau ymgysylltu â dysgu a gwneud cynlluniau ar gyfer eu dyfodol.

Y llynedd, fe wnaeth 21 o'r 24 o ddisgyblion naill ai ddychwelyd i addysg amser llawn neu symud ymlaen at gyrsiau coleg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi aros yn y lleoliadau hyn yn llwyddiannus. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn ystod eu cyfnod yn yr UCD. Y llynedd, llwyddodd disgyblion yn yr UCD i gael 19 gradd TGAU, un radd Safon Uwch ac un Dyfarniad Lefel 3 BTEC gyda chlod mewn Celf. Bu'r disgyblion hefyd yn paratoi ar gyfer arholiadau TGAU a Safon Uwch yn yr UCD a magu'r hyder sydd ei angen i sefyll yr arholiadau yn eu hysgolion. Fe wnaethant lwyddo i ennill 10 gradd TGAU ac un radd Safon Uwch. O ystyried faint o anawsterau sydd ganddynt pan fyddant yn dod i mewn i'r UCD, mae hwn yn gyflawniad rhagorol.

Mae'r disgyblion yn dysgu i weithio gyda phobl eraill yn dda iawn, ac yn gwella'u medrau. Gwnânt ddefnydd da iawn o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), gan gynnwys llechi i ymchwilio, drafftio ac ailddrafftio a chofnodi eu gwaith. Mae eu gwaith ar animeiddio yn rhagorol. Maent yn defnyddio medrau meddwl yn dda iawn i ddatrys problemau ac i gynllunio ar gyfer, a chymryd rhan mewn, digwyddiadau fel bore coffi i godi arian at elusen.

Defnyddiant eu hyder cynyddol a'u medrau cyfathrebu i siarad drostynt eu hunain, i gymryd rhan mewn trafodaethau ac i wneud cyflwyniadau ar destunau fel tatŵs. Maent yn darllen amrywiaeth eang o destunau'n ymwneud â'u gwaith cwrs TGAU, ac yn cynhyrchu ysgrifennu annibynnol o ansawdd uchel. Maent yn defnyddio geirfa bynciol briodol yn ystod gwersi. Mewn Ffrangeg, maent yn cynhyrchu gwaith o safon uchel iawn ac yn llunio brawddegau cymhleth, gan ddefnyddio ystod dda o eirfa. Mae gwaith y disgyblion mewn celf o ansawdd uchel iawn.

Mae'r disgyblion Cymraeg iaith gyntaf yn ymarfer ac yn datblygu'u Cymraeg yn dda iawn. Maent yn cael canlyniadau arholiadau TGAU da mewn Cymraeg a Chymraeg llenyddiaeth. Mae disgyblion Cymraeg ail iaith yn llwyddo i gael graddau TGAU mewn Cymraeg hefyd. Mae pob un o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o ddiwylliant Cymru.

## Lles: Rhagorol

Mae pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr UCD, oherwydd gofal a gwyliadwriaeth y staff. Mae’r disgyblion yn teimlo bod yr uned yn delio’n dda ag unrhyw fwlio. Mae’r ymdeimlad hwn o ddiogelwch yn helpu eu hadferiad ac yn eu galluogi i ddysgu. Maent yn cydnabod y lefelau uchel iawn o gymorth ac anogaeth a gânt gan y staff. Oherwydd y gefnogaeth hon, maent yn dechrau ymddiried yn y staff ac yn dysgu i rannu’u teimladau a’u pryderon gyda hwy a’u cyfoedion. Maent yn gallu trafod a chodi materion sydd o bwys iddynt, a chael sicrwydd. Mae’r datblygiadau rhagorol hyn mewn cyfathrebu yn gyflawniad rhagorol ac yn cael effaith sylweddol ar eu lles.

Mae disgyblion yn mwynhau eu gwaith yn yr UCD. Cymerant ran mewn amrywiaeth eang o weithgareddau sy’n ehangu’u gorwelion ac yn cynyddu’u hyder. Mae’r rhain yn cynnwys gwaith gydag Ymddiriedolaeth John Muir, hyfforddiant Gwobr Cymorth Cyntaf y Groes Goch a chynllunio a threfnu arddangosfa mewn oriel gelf leol. Maent yn dysgu i weithio’n dda iawn mewn grwpiau ac yn rhoi cryn gymorth ac anogaeth i’w gilydd. Maent yn dysgu goddef gwahaniaethau ei gilydd yn dda iawn ac yn dysgu cadw eu sylw ar eu gwaith.

Mae disgyblion yn cael mynediad da iawn at grŵp medrau gwerthfawr sydd wedi’i gynllunio’n ofalus i wella eu lles emosiynol. Mae’r grŵp medrau hwn yn cael ei redeg fel rhan o amserlen ysgol y disgyblion, ac mae’n cael ei hwyluso ar y cyd gan y staff addysgu a’r staff seicoleg. Mae ymagwedd anarfarnol, dawel a chefnogol y staff yn helpu’r disgyblion ddysgu sut i adnabod a delio â meddyliau negyddol, adnabod ble maent yn barnu eu hunain yn rhy llym a bod yn fwy derbyngar ohonynt eu hunain. Mae’r gwaith hanfodol hwn ar les emosiynol, y deilliannau rhagorol ar gyfer disgyblion a’r gweithio agos a’r ymddiriedaeth rhwng gweithwyr proffesiynol iechyd ac addysg yn arfer sy’n arwain y sector.

Mae’r disgyblion yn elwa ar gwrs addysg bersonol a chymdeithasol priodol, sy’n cynnwys addysg rhyw a chydberthynas. Caiff y rhaglen hon ei chefnogi’n dda iawn gan swyddog heddlu cymunedol ysgolion. O ganlyniad i’r gwaith hwn mae’r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda iawn o sut i gadw eu hunain yn ddiogel, a diogelwch ar y rhyngrwyd.

Yn gyffredinol, mae’r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Mae lefelau presenoldeb y disgyblion yn gwella dros gyfnod. Maent yn mynychu’n rheolaidd oni bai eu bod yn anhwylus. Y llynedd, 79% oedd y cyfartaledd presenoldeb. I lawer o ddisgyblion mae’r cynnydd hwn o ran presenoldeb yn gyflawniad rhagorol. Fodd bynnag, nid yw’r disgyblion bob amser yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer gwersi.

Mae’r disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau, ac o ganlyniad maent yn dod yn fwy annibynnol. Maent yn mynychu cyfarfodydd grŵp ac yn trafod eu teimladau a nodi atebion, ac yn cynllunio’r ffordd ymlaen i’w gilydd. Cânt eu cynnwys yn llawn wrth osod targedau ar gyfer eu gwaith a’u hymddygiad, ac maent yn adolygu’r targedau hyn yn rheolaidd gyda help y staff. Ymgynghorir â nhw’n aml ynglŷn â gwaith yr UCD. Maent yn mynychu cyngor yr ysgol ac yn trafod materion sy’n effeithio ar eu diwrnod ysgol. Mae hyn wedi cynnwys newid hyd gwersi a chyflwyno cyrsiau achredededig mewn tecstilau ac astudiaethau’r cyfryngau. Fodd bynnag, nid yw’r disgyblion wedi cael y cyfle eto i arwain wrth gadeirio neu gofnodi’r cyfarfodydd.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r UCD yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n nodi cyfleoedd i adeiladu ar brofiadau'r disgyblion yn yr ysgol a thu hwnt. Caiff profiadau dysgu eu haddasu'n dda i ddiwallu anghenion unigol amrywiol y disgyblion, ac i roi llwybrau dysgu unigol addas iddynt.

Mewn gwersi, mae'r UCD yn sicrhau bod disgyblion yn gwella eu medrau cyfathrebu, TGCh, llythrennedd a rhifedd. Rhoddir pwyslais priodol ar ddatblygu medrau meddwl y disgyblion. Mae'r ffocws hwn ar fedrau yn cefnogi ailintegreiddio i'r ysgol neu goleg yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r UCD yn cynllunio'n strategol ar gyfer datblygu medrau ar draws y cwricwlwm gystal ag y gallai.

Mae'r UCD yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr, sy'n cynnwys addysg rhyw. Lle bo angen, mae'r staff iechyd yn darparu mwy o waith unigol ar faterion penodol ac yn cysylltu'n fanwl â'r staff addysgu.

Mae'r UCD yn paratoi disgyblion yn dda iawn ar gyfer pan fyddant yn gadael, yn dychwelyd i'w cymuned a mynychu'r ysgol. Er enghraifft, gall disgyblion ddewis eu hopsiynau ar gyfer TGAU a pharatoi gwaith cwrs, ac mae hyn yn helpu i gadw i fyny â'u cyfoedion a pharhau â'u hastudiaethau pan fyddant yn mynd yn ôl i'r ysgol.

Mae'r UCD yn trefnu darpariaeth dda iawn ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae gwersi'n ddwyieithog yn aml. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i glywed a defnyddio Cymraeg achlysurol, ac i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru.

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o gyfleoedd yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt i'r disgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Er enghraifft, maent yn dysgu am blant sy'n filwyr mewn gwledydd eraill, yn cyfrannu at fentrau arbed ynni yn yr UCD ac yn tyfu llysiau yng ngardd yr UCD.

**Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn dda, ac mewn ychydig o achosion mae'n rhagorol. Mae pob aelod o staff yn creu hinsawdd o ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd.

Mae'r athrawon yn cydweddu gwaith yn ofalus yn ôl anghenion, galluoedd a diddordebau unigol y disgyblion. Maent yn adeiladu ar waith blaenorol ac yn gwneud defnydd da o sesiynau llawn i atgoffa disgyblion o'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Darparant waith diddorol sy'n ymwneud â diddordebau'r disgyblion, fel arddangosfa hwdis, Ffrangeg ychwanegol ac ioga. Maent yn gosod amcanion clir ac yn gwneud yn siŵr bod y disgyblion yn deall yn union beth fyddant yn ei ddysgu. Maent yn rhoi esboniadau gofalus ac yn gwneud defnydd da o dechneg holi i wirio dealltwriaeth. Maent yn talu sylw da i ddatblygu medrau'r disgyblion yn ôl yr angen. Lle mae'r addysgu yn rhagorol, mae'r athrawon yn gosod ffiniau clir iawn sy'n cynnig her briodol. Maent yn modelu ymddygiad ar gyfer y disgyblion, ac yn delio'n gadarn ond

yn gydymdeimladol â'r rhai sy'n gwrthod ymgysylltu ac sy'n tynnu sylw disgyblion eraill. Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn annog disgyblion i weithio'n annibynnol.

Mae'r athrawon yn arbennig o fedrus o ran bod yn hyblyg. O ganlyniad, maent yn gallu ymdrin â hwyl isel disgyblion ac, felly, lefelau amrywiol o ymgysylltu, diffyg canolbwyntio a'u hanghenion penodol yn ymwneud â'u triniaeth. Yn aml, mae'n rhaid i'r athrawon addasu'n gyflym i sefyllfaoedd yn newid pan na fydd disgyblion yn cyrraedd gwersi mewn pryd. Maent yn gwneud hyn yn dda iawn. Fodd bynnag, mae gormod o amser yn cael ei golli yn gwirio ble mae'r disgyblion, ac yn ad-drefnu'r gwersi i ddarparu ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd gwersi yn hwyr.

Mae'r athrawon yn cynnal asesiad trylwyr o agweddau'r disgyblion at yr ysgol, a'u medrau llythrennedd a rhifedd pan fyddant yn cychwyn yno. Defnyddiant yr asesiadau hyn yn dda i lywio'r modd y cynllunnir gwaith. Mae systemau olrhain clir ac effeithiol i gofnodi ac arfarnu cynnydd y disgyblion ac i gynllunio dysgu pellach. Mae'r athrawon yn gweithio'n agos iawn ag ysgolion y disgyblion i wneud yn siŵr bod y disgyblion yn cadw i fyny â'u gwaith a bod y gwaith ar y lefel gywir. Caiff rhieni a gofalwyr gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r staff yn rhoi cymorth ac arweiniad rhagorol i'r disgyblion. Maent yn rhoi sylw da iawn i anghenion emosiynol y disgyblion ac i godi'u hunan-barch. Mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o'r materion penodol y mae'n rhaid i'r disgyblion ddelio â hwy. Mae gan yr UCD ystod eang o bolisïau cynhwysfawr ar waith i hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion.

Pan fydd y disgyblion yn cyrraedd yr UCD, maent yn cael llyfryn sefydlu deniadol gyda'r bwriad o dawelu'u hofnau ynglŷn â mynychu'r UCD. Mae'r UCD yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus, ac mae cyfleoedd da iawn i fyfyrio'n bersonol.

Caiff y disgyblion fynediad da iawn i gymorth proffesiynol fel eu bod yn gallu symud ymlaen, mynd i'r afael â materion personol poenus ac elwa ar eu haddysg felly. Mae'r rhain yn cynnwys cwnsela, therapïau a defnyddio anogwr dysgu.

Mae polisi ymddygiad priodol, sy'n amlinellu disgwyliadau clir ar gyfer disgyblion a staff. Mae'r staff yn sicrhau bod dealltwriaeth dda gan bob disgybl o fwlio a beth i wneud os bydd yn digwydd.

Mae'r athrawon yn gweithio'n agos iawn â'r tîm Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (GIMPG) a gweithiwr cymdeithasol i gyflwyno rhaglen medrau therapi ymddygiad cydnabyddedig yn yr UCD. Mae hon yn effeithiol iawn o ran hyrwyddo lles emosiynol, gan dargedu anghenion disgyblion bregus a phryderus iawn yn benodol.

Mae'r staff yn rhoi sylw da iawn i gynyddu presenoldeb disgyblion unigol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cynyddu'u cyfraddau presenoldeb dros gyfnod.

Mae'r UCD yn nodi anghenion dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Gweithia'r staff yn agos â'r disgyblion i drafod a gosod targedau priodol ond heriol bob pythefnos. Caiff y rhain eu monitro'n ofalus, eu rhannu â staff GIMPG a'u harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Mae trefniadau'r UCD ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun unrhyw bryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r staff yn yr UCD wedi creu ethos cynhwysol a chefnogol lle caiff yr holl ddisgyblion eu trin gyda pharch mawr ac urddas. Mae'r hinsawdd rymusol hon yn cydategu'r cyfraniad gan y sector iechyd, ac mae'n cyfrannu'n dda at adferiad y disgyblion. Caiff pob disgybl fynediad cyfartal i bob agwedd ar ddarpariaeth yr UCD.

Mae'r staff yn hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal yn dda iawn. Mae'r amgylchedd yn un croesawgar, ac mae ganddo adnoddau da i ddiwallu anghenion dysgu ac anghenion emosiynol y disgyblion.

Dim ond tair blwydd oed yw adeilad yr ysgol, ac fe'i adeiladwyd yn bwrpasol. Mae ansawdd yr adeilad yn rhagorol. Mae'n adeilad eang braf, wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion diogelwch y disgyblion, ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn. Mae arddangosiadau ar draws yr UCD yn ddeniadol ac yn ysgogol i'r disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth ar gyfer yr UCD, ac mae'n cynnig arweinyddiaeth dda. Mae'r pennaeth a'r dirprwy yn gweithio'n dda â'i gilydd ac wedi datblygu tîm cadarn. Mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir.

Rhoddir ffocws cadarn ar welliant parhaus, ac mae disgwyliadau yn uchel. Mae systemau priodol ar waith sy'n cefnogi'r nod hwn.

Mae'r UCD yn ymgorffori blaenoriaethau cenedlaethol yn llwyddiannus yn ei chynlluniau a'i darpariaeth. Mae hyn yn cynnwys y Wobr Ysgolion Iach a chyfle cyfartal ar gyfer llwybrau dysgu 14-19.

Mae cysylltiad clir rhwng rheoli perfformiad staff a'r blaenoriaethau a ddatganwyd yng nghynllun datblygu manwl yr ysgol. Caiff targedau ar gyfer gwella eu cyfleu'n dda i'r staff ac aelodau'r pwyllgor rheoli.

Mae pwyllgor rheoli'r UCD yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn derbyn adroddiadau manwl, gan gynnwys data, gan y pennaeth. Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol o'r UCD. Fodd bynnag, nid yw aelodau'r pwyllgor yn cynnig digon o her mewn perthynas â gwella'r ysgol.

Mae'r pennaeth yn chwarae rhan arweiniol yn cynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol ac o ran datblygu'r ddarpariaeth i gynnwys gwaith allgymorth o fewn yr awdurdod.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y tîm arweinyddiaeth a'r staff ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r UCD a'r meysydd i'w gwella.

Mae arsylwadau o wersi gan reolwyr yn rhoi syniad defnyddiol o gryfderau a meysydd i'w datblygu mewn perthynas â chynllunio a chyflwyno gwersi. Defnyddir canlyniadau arsylwadau o wersi i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol. Mae'r rhain yn briodol i anghenion aelodau staff unigol, ac yn unol â blaenoriaethau'r UCD. Mae'r staff yn gysylltiedig ag ystod o rwydweithiau defnyddiol i gefnogi arfer broffesiynol.

Yn ddiweddar, mae'r UCD wedi gwella'r system ar gyfer arfarnu ei gwaith ac mae'n cydnabod bod hwn yn faes i'w ddatblygu'n barhaus. Defnyddir ystod briodol o ddata yn effeithiol wrth bennu meysydd ar gyfer gwelliannau. Cynhwyswyd y staff yn llawn yn y broses hunanarfarnu, a defnyddir cyfarfodydd staff yn rheolaidd i fyfyrio ar arfer a'i gwella. Mae'r hunanarfarnu yn llywio blaenoriaethau'r UCD yn glir ar gyfer datblygu. Fodd bynnag, ni wnaeth yr UCD ymgynghori gydag ystod mor eang o randdeiliaid ag y gallai fod wedi gwneud wrth ddatblygu'r AHA.

Mae'r UCD wedi nodi nifer o dargedau addas i'w datblygu, er enghraifft, gwella'r profiad dysgu, datblygu'r cwricwlwm ac ehangu'r ystod achrediadau sy'n cael eu cynnig a gwella cysylltiadau â'r gymuned. Er bod targedau'n glir, nid yw'r camau tuag at gyflawni'r rhain yn ddigon manwl.

Mae'r pennaeth yn dirprwyo tasgau yn dda ac yn darparu graddfeydd amser priodol ar gyfer eu cwblhau. Fodd bynnag, nid yw'r rheolwyr bob amser yn rhoi costau llawn ynghlwm wrth flaenoriaethau nac yn datgan effaith camau gweithredu ar safonau yn y cynllun datblygu.

Nid aethpwyd i'r afael yn llawn â dau o'r chwe argymhelliad yn yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r UCD wedi sefydlu partneriaethau effeithiol iawn gydag ystod o ysgolion lleol, colegau addysg bellach a darparwyr eraill. Mae'r trefniadau hyn yn darparu parhad yn nysgu'r disgyblion ac yn ehangu eu cyfleoedd. O ganlyniad i'r partneriaethau hyn, mae'r disgyblion yn elwa ar gymorth cwricwlwm, addysgu penodol i bwnc a pharatoi da ar gyfer medrau cyfweliad. Mae cysylltiadau o'r fath wedi chwarae rhan yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol neu golegau addysg bellach.

Mae cytundeb lefel gwasanaeth priodol rhwng yr UCD a'r gwasanaeth gyrfaoedd lleol. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyngor ac arweiniad diduedd o ansawdd da ar yrfaoedd.

Mae cyfathrebu da iawn rhwng yr UCD a rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn rhoi sicrwydd iddynt ac yn cyfrannu at wella safonau lles y disgyblion.

Mae'r UCD yn gweithio gydag amrywiaeth o asiantaethau amgylcheddol. O ganlyniad, mae'r disgyblion wedi adeiladu gardd hamdden a gardd weithio ar gyfer cymuned yr ysbyty.

Mae staff yr UCD yn gweithio'n agos iawn â chydweithwyr y maes iechyd. Mae'r athrawon wedi cael hyfforddiant i ddarparu ymyrraeth therapiwtig i ddisgyblion yn yr UCD ochr yn ochr ag aelodau'r tîm iechyd. Hefyd, mae'r athrawon yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr iechyd proffesiynol mewn sesiynau goruchwyliaeth gyda'r disgyblion. Rhannwyd y dull hwn o gyflwyno therapi mewn cynadleddau cenedlaethol. Mae lefel ragorol o ymddiriedaeth a gweithio mewn partneriaeth rhwng athrawon a gweithwyr iechyd proffesiynol. O ganlyniad i'r cydweithio rhagorol rhwng gweithwyr proffesiynol addysg ac iechyd, mae cynlluniau wedi'u datblygu'n dda i ehangu'r gwasanaeth i ddarparu addysg yn y gymuned i bobl ifanc fel cleifion allanol.

Mae cyfathrebu gyda chydweithwyr iechyd ynglŷn ag anghenion addysg a thargedau disgyblion wedi'i gryfhau mwy fyth dros y misoedd diwethaf yn sgil datblygu'r is-grŵp addysg.

Yn ddiweddar, mae'r UCD wedi elwa ar graffu allanol gan y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol. Mae'r adroddiadau hyn wedi bod yn gadarnhaol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r UCD yn cyflogi nifer ddigonol o staff â chymwysterau a phrofiad priodol. Defnyddir y staff yn effeithiol gan y pennaeth. Mae hyn yn sicrhau bod cyfleoedd cwricwlwm addas yn cael eu darparu ar gyfer pob disgybl. Seilir niferoedd staff ar gymarebau a argymhellir ar gyfer lleoliadau GIMPG.

Mae hyfforddiant staff yn cydweddu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r UCD yn cymryd gofal wrth weithio gydag eraill er mwyn cyfyngu costau hyfforddi. Mae system dda ar waith i staff rannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hyfforddiant a wnaed. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar wella safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

Gwneir penderfyniadau gwario yn unol â blaenoriaethau'r ysgol ac o fewn y lwfans y pen sydd ar gael i'r ysgol. Lle mae angen adnoddau ychwanegol, rhoddir ystyriaeth ofalus i'r rhain cyn gofyn am gyllid ychwanegol gan yr awdurdod lleol.

Mae'r UCD wedi gwneud defnydd da o grantiau a rhoddion i ddatblygu profiadau dysgu'r disgyblion, er enghraifft, y rhodd o gyfarpar cerddoriaeth gan elusen blant lleol.

Mae'r trefniant partneriaeth gyda'r awdurdod iechyd lleol yn sicrhau bod yr UCD yn cael ei chynnal i safon uchel. Mae hyn yn cyfrannu at ddarparu amgylchedd dysgu sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r UCD yn cynnig gwerth am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Llenwyd yr holiadur gan naw o’r pedwar ar ddeg disgybl. Mae pob un o’r naw yn cytuno eu bod yn teimlo’n ddiogel a bod y staff yn delio’n dda â bwlio yn yr UCD. Mae gan bob un ohonynt rywun i siarad â nhw os ydynt yn pryderu, a theimlant fod yr athrawon yn eu helpu i wneud cynnydd a delio â phroblemau. Teimla pob un o’r disgyblion bron fod y staff yn eu trin â pharch, bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda a’u bod yn gallu bwrw ymlaen â’u gwaith. Cytuna’r disgyblion hyn hefyd fod yr UCD yn gwrando arnynt, bod ganddynt ddigon o offer a chyfleoedd i wneud ymarfer corff, a’u bod yn cael eu haddysgu sut i gadw’n iach. Mae pob un o’r disgyblion a ymatebodd yn cytuno bod yr UCD yn eu paratoi’n dda ar gyfer symud ymlaen, eu bod nhw a’u cefndiroedd yn cael eu parchu, a’u bod yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb a pharchu pobl eraill.

Teimla pedwar o’r naw o ddisgyblion nad ydynt yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Fodd bynnag, rhaid edrych ar yr ymateb hwn yng nghyd-destun teimlo iselder, bod mewn lleoliad diogel ac i ffwrdd o’u hysgolion. Un o nodau’r therapi ymddygiad a gânt yw helpu disgyblion i fod yn fwy caredig iddynt eu hunain a pheidio â barnu eu perfformiad yn rhy llym.

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Llenwyd yr holiadur gan bedwar rhiant.

Roeddent yn cytuno’n gryf eu bod yn fodlon â’r ysgol, fod eu plentyn yn gwneud cynnydd, yn hoffi’r ysgol ac wedi cael cymorth i ymgartrefu’n dda. Roeddent yn cytuno bod yr addysgu yn dda, bod eu plentyn yn gwneud cynnydd ac yn ddiogel yn yr ysgol, a bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda. Cytunai pob un o’r rhieni fod y staff yn trin disgyblion â pharch, yn eu disgwyl i gymryd mwy o gyfrifoldeb ac yn eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff rheolaidd, lle bo’n briodol. Roedd pawb o’r farn fod y disgyblion yn cael cymorth da a’u bod yn cael eu hannog i fod yn fwy aeddfed. Teimlai pob un ohonynt yn esmwyth ynglŷn â mynd at yr ysgol. Roedd y rhan fwyaf o’r sylwadau ychwanegol yn canmol gwaith y staff yn fawr, a pha mor dda maent yn cynorthwyo’r disgyblion.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Claire Yardley | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Davies | Arolygydd Tîm |
| Peter Haworth | Arolygydd Lleyg |
| Christopher Alpin | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mark Peters | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy'n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg